# Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010

**2010 mccc 6**

## 1 Ymgysylltiad cymunedau â gwarediadau gan awdurdodau lleol o gaeau chwarae

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol am warediadau ganddynt o dir sy'n gae chwarae neu'n rhan o gae chwarae.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ymhlith pethau eraill–

- (a) cymhwyso'r rheoliadau i fathau penodedig o warediadau;
- (b) cymhwyso'r rheoliadau i warediadau o fathau penodedig o gae chwarae;
- (c) gwneud gwarediad y mae'r rheoliadau yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i ymgynghoriad yn unol â'r rheoliadau;
- (d) pennu'r personau neu'r categorïau o berson y mae'n rhaid ymgynghori â hwy, sef y personau hynny yr effeithir arnynt gan warediad neu sydd â buddiant mewn gwarediad, a'r gwarediad hwnnw yn un y mae'r rheoliadau yn gymwys iddo;
- (e) darparu ar gyfer ffurf a dull yr ymgynghori;
- (f) darparu ar gyfer rhoi hysbysiad am warediadau arfaethedig, gan gynnwys ffurf a dull yr hysbysiad;
- (g) ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am y canlynol yn cael ei darparu–
  - (i) effaith gwarediad arfaethedig ar unrhyw strategaeth, cynllun neu asesiad a bennir yn y rheoliadau, neu
  - (ii) unrhyw beth arall cysylltiedig â gwarediad arfaethedig;
- (h) pennu ffurf a dull y mae'r wybodaeth i'w darparu ynddi ac ynddo;
- (i) darparu bod rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y rheoliadau, roi sylw i ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru;
- (j) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol;

(k) gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i eithriadau neu yn unig o ran achosion penodol neu ddosbarthau ar achosion penodol;

(l) gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed a wêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Yn y Mesur hwn–

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw–

(i) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol,

(ii) cyngor cymuned (gan gynnwys cyngor tref),

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "cae chwarae" ("*playing field*") yw man agored sy'n cynnwys un neu fwy o ardaloedd sydd ar unrhyw adeg wedi'u marcio neu wedi'u neilltuo fel arall ar gyfer chwaraeon neu weithgaredd hamddenol tebyg;

ystyr "gwarediad" ("*disposal*") yw rhoi unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu wneud cytundeb i wneud hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 15.12.2010, gweler **a. 5(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010, Adran 1.